# 2.1.4 (a) Atal ac Ymyrryd yn Gynnar er mwyn Hybu a Chynnal Twf, Datblygiad a Lles

At yr arholiad, bydd angen i chi ddeall sut gall gwasanaethau ymyrryd yn gynnar, a'r rheini'n hybu iechyd a lles, gyfrannu at system iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant moesegol a chynaliadwy yng Nghymru.

Bydd unigolion yn elwa o gefnogaeth yn gynnar i atal, neu o leiaf ohirio, defnyddio gwasanaethau ffurfiol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant.

## Dulliau atal ac ymyrryd yn gynnar: dulliau sgrinio

- Sgrinio'r fron
- Sgrinio am ganser ceg y groth
- Sgrinio am ganser y coluddyn
- Sgrinio am anewrysm aortig abdomenol
- Sgrinio mamau
- Sgrinio yn ystod plentyndod – Cofnod Iechyd Personol Plentyn ('y llyfr coch'), clyw newydd-anedig, Sgrinio Smotyn Gwaed Newydd-anedig Cymru, Cymru Well Wales: y 1000 o Ddiwrnodau Cyntaf.

## Dulliau atal ac ymyrryd yn gynnar: canllawiau'r llywodraeth

- Yn ymwneud â: Deiet, clefydau a drosglwyddir yn rhywiol, camddefnyddio alcohol a sylweddau, ysmygu, byw'n iach.

## Dulliau atal ac ymyrryd yn gynnar: rhaglenni imiwneiddio drwy gamau bywyd

*Rhai enghreifftiau*

- Rotafirws
- 6-mewn-1
- Niwmococol (PCV)
- Hib/Men C
- Ffliw plant
- MMR
- 4-mewn-1 cyn ysgol
- HPV
- Ffliw
- Yr eryr

## Dulliau atal ac ymyrryd yn gynnar: gwasanaethau

- meddyg teulu/canolfan iechyd/ysbytai
- gofal cynenedigol/ôl-enedigol
- clinig iechyd plant
- clinig merched/dynion
- clinig cynllunio teulu/clinig iechyd rhywiol
- gwasanaethau symudol, e.e. Rhaglen Sgrinio'r Fron y GIG/Bron Brawf Cymru
- cwnsela

## Ymyrryd yn gynnar ac atal dulliau: cynlluniau'r llywodraeth

e.e. Dechrau'n Deg, Y Cynnig Rhagweithiol

## Dull ymyrryd yn gynnar ac atal: cynnwys y gymuned/cefnogaeth yn y gymuned

e.e. grwpiau chwarae, rhwydweithiau ffrindiau, gweithgareddau canolfannau cymunedol, grwpiau ffydd.